**Trosedd a Chosb yn Ne Cymru adeg Oes Fictoria**

Fel y gwelwyd yn y gweithdy, gallai bywyd fod yn anodd iawn i bobl De Cymru adeg Oes Fictoria. Fe'u cyflogwyd mewn diwydiannau peryglus, roedd eu cyflogau’n isel iawn ac roeddent yn byw mewn tai ofnadwy. Fel y byddech yn ei ddisgwyl, bu’n rhaid i lawer o bobl droi at droseddu i'w helpu i oroesi'r amodau heriol hyn.

Pecyn Adnoddau

Ffotograff o gofnod gwreiddiol ar y Gofrestr Troseddwyr, De-ddwyrain Cymru, 1869-1897.
Trawsgrifiad o ddarn o 1878 o gofnodion ar y Gofrestr Troseddwyr.
Adroddiad papur newydd byr yn 2019 ar drychineb glofaol Abercarn.

Gweithgareddau a Awgrymir

- Rhowch gynnig ar fod yn hanesydd! Pa wybodaeth allwch chi ei darllen am Ellen Barry o'r cofnod gwreiddiol ar y Gofrestr Troseddwyr? Gall disgyblion weithio mewn grwpiau bach i geisio darganfod manylion am Ellen Barry:

| Enw | Oed | Taldra | Gwallt | Llygaid | Gwedd | Ganwyd | Swydd | Marciau nodedig | Cyfeiriad | Trosedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ellen Barry | 40 | 5 troedfedd 5 modfedd | Brown golau | Llwyd | Ffres | Merthyr Tudful | Trempyn | Creithiau ar ôl brech a chraith ar ei thalcen | Casnewydd | Dwyn poteli gwag |

Edrychwch ar y trawsgrifiad o’r cofnodion i'r Gofrestr Ar gyfer Troseddwyr 1878.

- Beth yw eich barn am y dedfrydau? Teg neu ormodol? A yw rhai'n ymddangos yn llymach nag eraill? Sut maen nhw'n cymharu â'r cosbau y byddech chi'n eu disgwyl am y troseddau hynny heddiw?
- Pa gofnod sy’n wahanol i’r gweddill?
- Allwch chi ddod o hyd i unrhyw debygrwydd rhwng y cofnodion? Pobl ifanc iawn yn bennaf, i gyd yn euog o ddwyn ac maent i gyd yn byw yn Abercarn, neu o fewn pellter cerdded. Pam ydych chi'n meddwl y byddai'r bobl ifanc hyn wedi troi at ddwyn?
- Darllenwch yr adroddiad papur newydd ar drychineb glofaol Abercarn 1848 neu gwnewch rywfaint o ymchwil annibynnol. Sut y gallai'r trychineb hwn fod wedi cyfrannu at wneud i bobl yn yr ardal droi at droseddu?
- Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu dadansoddiad byr, gan ddefnyddio tystiolaeth o'r ffynonellau a ddarparwyd, ynghylch pam y byddai dwyn wedi bod yn broblem fawr yn ardal Abercarn yn 1878/9.

| NAME and ALIASES. | DESCRIPTION. | | | | | | | | | | Address at time of Apprehension. | OFFENCE FOR WHICH CONVICTED. | Name … w… con… |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Age. | Height. Feet. | Height. Inches. | Hair. | Eyes. | Complexion. | Where born. | M. or S. | Trade or Occupation. | Any other distinguishing mark. | | | |
| …llen Barry. | 40 | 5 | 5 | D.Bro | Grey | Fresh | Merthyr Tydfil | M | On Tramp | Pockpitted and Scar on forehead | Newport | Stealing Empty Bottles | … |
| …ane Lewis | 21 | 4 | 11 | D.Bro | Hazel | Sall | Pendaryn Merthyr | S | appears to be a Prostitute. | Flat nose mole on right Cheek | On Tramp | Stealing a Shawl | |
| …ames Warren | 31 | 5 | 3¾ | Dark | Grey | Sall | Tredegar I. Works | M | Iron Puddler. | nil | Tredegar I. Works | Stealing a Cask and 18 Gallons of Beer | |
| …ohn Evans | 39 | 5 | 2 | Dark | Bro | Sall | Ebbw Vale | S | do | nil | do | do | |
| …izabeth McCarthy | 26 | 5 | 0 | D.Bro | Blue | Light | Cork Ireland | M | Wife | nil | Ebbw Vale | Stealing a pair of Boot… | |

# Entries from the Register of Criminals

# South East Wales 1848


| **Enw** | **Oed** | **Taldra** | **Gwallt** | **Llygiad** | **Gwedd** | **Ganwyd** | **Swydd** | **Marciau nodedig** | **Cyfeiriad** | **Trosedd** | **Dyddiad y Gollfarn** | **Dedfryd** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| George Butts | 17 | 5tr 3 | Brown golau | Brown | Ffres | Pont-y-pŵl | Glöwr | Craith fawr ar ôl brech ar ei foch dde | Abercarn | Dwyn oriawr | 16 Hydref 1878 | 12 mis o lafur caled |
| Catherine A Williams | 15 | 5tr | Hir | Brown | Golau | Abercarn | Gweithiwr mewn Gwaith Tun | Dim | Abercarn | Dwyn pâr o esgidiau | 19 Hydref 1878 | 1 diwrnod o lafur caled |
| Henry Gavratt | 14 | 4tr 6 | Brown golau | Llwyd | Ffres | Rhisga | Dim | Dim | Rhisga | Dwyn arian o siop | Tachwedd 23ain 1878 | 3 blynedd a 14 diwrnod Ysgol Benyd |
| Walter Rowswoll | 55 | 5tr 8 | Llwyd | Brown | Llwyd | Gwlad yr Haf | Priodfab | Wedi colli pen ei fawd chwith | Rhisga | Dwyn glo | Rhagfyr 7fed 1878 | 14 diwrnod o lafur caled |
| William Johns | 21 | 5tr 6 | Brown | Brown | Ffres | Abercarn | Glöwr | Craith ar ei dalcen yn dilyn cic gan geffyl | Abercarn | Dwyn deunyddiau adeiladu | 7 Mawrth 1879 | 1 diwrnod o garchar |

SOUTH WALES Argus

# Nodi dros 140 mlynedd ers trychineb glofaol Abercarn

12 Medi 2019

Gan Dan Barnes, Gohebydd Amlgyfrwng



*Darlun yn dangos y digwyddiad yn 1878*

DDOE, Medi 11, nodwyd 141 mlynedd ers un o drychinebau glofaol gwaethaf Prydain.

Fe rwygodd ffrwydrad drwy Lofa Tywysog Cymru yn Abercarn, gan ladd 268 o ddynion a bechgyn.

Digwyddodd y trychineb tua 12.15pm ar 11 Medi, 1878, pan gafodd yr ardal ei hysgwyd gan ffrwydrad.



(John Harris - a gafodd fedal am ei ran yn y gwaith achub)

Gwnaeth y timau achub wynebu mwg a thân wrth iddynt gael eu gostwng i'r pwll, ac roedd y peryglon yn ormod.

Er gwaethaf gwrthwynebiad lleol, cafodd y siafft ei selio a chafodd y pwll ei lenwi gyda 35 galwyn o ddŵr i roi'r tân allan, a chafodd y rhai a fu farw eu gadael dan ddaear.

Daeth adroddiad arolygydd pyllau glo i'r casgliad yn ddiweddarach fod y ffrwydrad, mae'n debyg, wedi'i achosi gan nwy o lamp diogelwch.